



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys i 'Cyflwr Plismona: Aseiad Blynyddol 2022 o Blismona yng Nghymru a Lloegr'

Yr wyf wedi darllen adroddiad blynyddol cyntaf Andy Cook i'r Ysgrifennydd Gwladol fel Prif Arolygydd Heddluoedd Ei Fawrhydi â diddordeb. Yr wyf wedi amlinellu fy ystyriaeth o dan y prif themâu a adolygir o fewn yr adroddiad isod.

Nid yw'r heddlu bob amser yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i'r cyhoedd

Er bod cyfraddau bodlonrwydd wedi bod yn syrthio ledled y wlad, yr wyf wedi fy nghalonogi gan y data o Arolwg Trosedd Medi 2022 Cymru a Lloegr, sy'n nodi bod Heddlu Dyfed-Powys yn cymharu'n ffafriol â heddluoedd eraill o ran deall pryderon lleol, mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a darpariaeth gwasanaeth cyffredinol. Mae ymrwymiad Heddlu Dyfed-Powys i blismona bro'n hollbwysig ar gyfer cynnal y lefel hyder hon. Yr ydym yn ffodus na fu'n rhaid i heddluoedd yng Nghymru leihau niferoedd Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH) er mwyn bodloni bylchau ariannu o ganlyniad i'r cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, a gynyddwyd yn ddiweddar. Mae'n dda gennyf adrodd bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal ar y trywydd cywir i recriwtio i'w darged o 163 SCCH. Bydd y rhain yn cael eu lleoli ar draws model Tîm Plismona Bro sydd newydd ei fireinio.

Mewn perthynas ag ymgynghori â dioddefwyr o ran y defnydd o warediadau y tu allan i'r llys, mae fy swyddfa wedi ymgynghori â'r cyhoedd yn ddiweddar er mwyn cefnogi adnewyddu ein dewislen rhwymedi cymunedol. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, bydd y ddewislen ddiwygiedig hon yn cael ei chyhoeddi ar dudalen benodol ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (SCHTh). Byddaf yn annog y defnydd o'r ddewislen hon wrth gefnogi dioddefwyr i ddweud eu dweud am y ffordd y mae troseddwyr yn atgyweirio'r difrod a achoswyd gan eu troseddau.

Yn ddiweddar, holodd Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF) sut mae'r Heddlu'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am ei feysydd blaenoriaeth a'i berfformiad. Mae hwn yn faes y mae fy swyddfa a'r Heddlu'n bwriadu datblygu ar y cyd er mwyn sicrhau ein bod ni, gyda'n gilydd, yn rhoi mwy o sicrwydd bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r cyhoedd.

Adnoddau/Cyllid

Mae cyfyngiadau o ran y ffordd y gall heddluoedd bennu eu harian, sy'n gysylltiedig â nifer y swyddogion, a chosbau os nad yw targedau'n cael eu bodloni. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth megis plismona digidol, hyd yn oed pan mae angen iddynt gyflawni arbedion sylweddol. Cydnabyddir fod hwn yn faes perygl, o ystyried heriau'r argyfwng costau byw presennol.

Rhaglen Ymchwydd yr Heddlu

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r pryderon cenedlaethol bod maint y recriwtio wedi cynyddu'r perygl bod heddluoedd yn caniatáu cliriadau fetio i nifer sylweddol o ymgeiswyr anaddas. Yr wyf wedi fy sicrhau bod holl safonau fetio adeg recriwtio Heddlu Dyfed-Powys wedi'u cynnal er waethaf y mewnlifiad sylweddol o swyddogion newydd. Yn ogystal, ymgymerodd Heddlu Dyfed-Powys ag adolygiad yn ddiweddar, a nodi'r angen ar gyfer swydd newydd, sef 'Swyddog Denu Talent'. Bydd y swydd hon yn cynorthwyo â recriwtio targedig drwy sefydliadau addysgol i ddenu ymgeiswyr o safon. Mae recriwtio a chadw staff heddlu dal yn

heriol, gyda chyrrff cyhoeddus eraill yn cynnig cyflogau uwch a mwy o gyfleoedd i weithio o bell. Mae cynyddu cyfleoedd interniaeth er mwyn datblygu llwybr i feysydd arbenigol yn y dyfodol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Rôl Plismona

Byddwn yn cytuno â'r arsylwad yn yr adroddiad fod dryswch o ran rôl plismona, a bod angen ei diffinio'n dynnach. Mae angen sgysiau agored ac onest gyda'r cyhoedd mewn perthynas â disgwiliadau. Yn genedlaethol, mae heddluoedd yn dechrau cyflwyno'r ymagwedd 'Y Gofal lawn, y Person lawn' tuag at ymdrin â'r galw o ran iechyd meddwl. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys strwythurau mewn grym ar gyfer rheoli'r trawsnewid hwn, a sicheir fod ymgysylltu'n digwydd er mwyn gwneud yn siŵr fod holl heddluoedd Cymru'n cynnal ymagwedd gyson.

Mae angen gwella effeithlonrwydd

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer y meysydd y mae angen eu gwella ac achosion pryder yn y maes hwn, gyda nifer o'r rhain yn deillio o ddibyniaeth yr heddlu ar Dechnoleg Gwybodaeth wedi dyddio. Bu problemau o ran cyflwyno prosiectau TG cenedlaethol, gydag oedi a gorwario ar brosiectau'n digwydd.

Yn ddiweddar, ymgymerodd Heddlu Dyfed-Powys â'u prosiect TG mwyaf erioed, gellir dadlau, wrth iddynt drawsnewid i'r System Rheoli Cofnodion Niche. Bu'r prosiect yn gymharol lwyddiannus, er gwaethaf rhai problemau cychwynol a swyddogion a staff yn addasu i systemau newydd. Mae hyn wedi cyfyngu gallu a chapasiti'r Heddlu i gyflenwi yn erbyn prosiectau TG eraill, megis Awtomeiddio Prosesau Robotig.

Mae AHGTAEF wedi sylwi ar ddiffyg parodrwydd i gydweithio ar draws swyddogaethau cymorth, megis Adnoddau Dynol, Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd rhai trefniadau cydweithio effeithiol mewn grym ledled Cymru, megis Cydweithrediad Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Dysgu a Datblygu Cymru Gyfan. Fel rhan o'r prosiect hwn, mae'r pedwar heddlu yng Nghymru'n defnyddio un system recriwtio, gan arwain at brofiad ymgeisio symlach.

Nid yw'r Heddlu'n cael y pethau sylfaenol yn iawn bob tro

Nododd AHGTAEF nad yw rhai o'r pethau sylfaenol o ran ateb y ffôn, mynd i leoliadau digwyddiadau ac ymchwilio i droseddau, yn cael eu gwneud yn dda.

Yn ei arolygiad diweddaraf, perfformiodd Canolfan Gyfathrebu Heddlu Dyfed-Powys yn dda yn erbyn yr Asesiad o Wasanaethau Dioddefwyr. Er y tynnwyd sylw at nifer uchel y galwadau 101 y rhoddir y gorau iddynt, sicrhodd Heddlu Dyfed-Powys gydymffurfiaeth o 100% o ran yr achosion a ystyriwyd ar gyfer graddio galwadau'n briodol, cwblhau gwiriadau ar gyfer dioddefwyr agored i niwed, trinwyr galwadau'n ymddwyn yn gwrtais a phroffesiynol, drwgdybiedigion yn cael eu harestio'n amserol, a dioddefwyr yn cael eu diweddarau drwy gydol ymchwiliadau.

Roedd y canfyddiadau hefyd yn ffafriol yn gyffredinol mewn perthynas ag ymchwiliadau. O'r achosion a ystyriwyd, sicrhodd Heddlu Dyfed-Powys gydymffurfiaeth o 100% mewn perthynas ag ymchwiliadau'n cael eu pennu'n briodol ac arestiadau'n cael eu gwneud mor fuan â phosibl. Yn ogystal, mae erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth yn ardal Dyfed-Powys wedi codi o 8 yn 2020 i 48 yn 2022.

Fodd bynnag, mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod bod angen gwelliannau mewn perthynas â throseddau a bennir i swyddogion ymateb, oedi mewn perthynas â gwaith ffrensig digidol ac archwiliadau digidol, mesur cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr, safon ffeiliau a gyflwynir a chwblhau cytundebau dioddefwyr.

Stopio a Chwilio

Nodaf fod Stopio a Chwilio wedi'i ystyried yn arf hanfodol y mae angen ei ddeall yn well o fewn yr adroddiad, a bod yn rhaid iddo ddatrys mwy o broblemau nag y mae'n eu creu.

Fel heddlu â ffin ddaearyddol fawr, defnyddir y weithdrefn stopio a chwilio i atal a datrys troseddau a gyflawnir gan droseddwr teithiol ac ar gyfer y rhai sy'n dosbarthu cyffuriau o fewn ein hardal.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi annog gwell rhagweithgarwch yn ei ddyhead i wneud ardal Heddlu Dyfed-Powys yn elyniaethus i'r rhai sy'n gwerthu cyffuriau. Mae hynny wedi golygu bod angen mwy o amddiffyniadau o ran adnabod a monitro anghyfartaledd. Dangoswyd tystiolaeth o hyn drwy oruchwylio, gweithredu camerâu corff ac archwilio cofnodion, ynghyd â gwaith craffu gan y Grŵp Archwilio Annibynnol a'm Panel Sicrhau Ansawdd.

Mae'r Heddlu wedi nodi bod angen iddynt atgyfnerthu'r neges pam y mae'r dacteg hon yn cael ei hyrwyddo, fel ei fod yn cael ei weld fel arf effeithiol ar gyfer lleihau'r niwed i'n cymunedau yn hytrach na dull ar gyfer gwella ffigurau perfformiad.

Dadansoddi data

Mae'r adroddiad yn nodi nad yw'r heddlu'n casglu a dadansoddi data'n ddigon da. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gwella ei ddadansoddiad o berfformiad yn sylweddol, gan elwa o ymgysylltu â chwmni arbenigol a datblygu gallu o fewn yr Heddlu. Fodd bynnag, mae adnoddau dadansoddol yn brin, ac mae'n anodd cadw staff arbenigol o fewn y maes plismona.

Mae cyfeiriad dadansoddi rhagfynegol a Deallusrwydd Artiffisial i'r dyfodol yn gyfleoedd gwyach i wella gallu a chapasiti. Fodd bynnag, mae plismona'n wynebu her sylweddol i allu ariannu'r buddsoddiad mawr sydd angen a chael y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflenwi prosiectau o'r fath.

Diwygio'r Gweithlu, Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Mae'r adroddiad yn nodi bod angen i'r gwasanaeth heddlu wella'r ffordd mae'n adnabod swyddogion sydd â'r gallu i ddod yn arweinwyr uwch, cefnogi'r arweinwyr hynny ar rengoedd is, a gwella rhagwelediad ar gyfer heriau strategol a wynebir.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn alinio ei Strategaeth Arweinyddiaeth i bum cam y Rhaglen Arweinyddiaeth a gyflwynwyd gan y Coleg Plismona. Mae'r Heddlu'n cymryd rhan weithredol yn y gweithdai, ac ar hyn o bryd, mae tri o'u swyddogion yn rhan o'r Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol. Mae'r Heddlu wedi ailgyflwyno hyfforddiant lefel mynediad ar gyfer Rhingylliaid ac Arolygwyr ac wedi gweithredu cyflwyniadau gorfodol ar sgysiau hollbwysig a phresenoldeb mewn Dosbarth Meistr Adnoddau Dynol ar gyfer pob goruchwylydd.

Safonau a Diwylliant

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithio tuag at yr argymhellion a'r meysydd y mae angen eu gwella a nodwyd o fewn yr archwiliad o fetio, camymddwyn a chasineb at wragedd yn y gwasanaeth heddlu. Yr wyf wedi fy sicrhau bod yr Heddlu wedi bod yn cyflwyno diweddariadau mewn modd amserol ac yn ystyried ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion.

Mae'n werth nodi fan hyn hefyd bod yr adran, fel pob un arall yng Nghymru a Lloegr, yn destun 'adolygiad cyflym' a gomisiynwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r meysydd busnes cwynion a chamymddwyn, fetio a gwrthlygredd. Diben yr adolygiad, a gynhaliwyd gan AHGTAEF, oedd bodloni'r Swyddfa Gartref bod heddluoedd yn datblygu'r argymhellion.

Roedd yr adolygiad cyflym yn cynnwys hap sampl o achosion cudd-wybodaeth gwrthlygredd, cwynion a ffeiliau camymddwyn. Canmolodd Arolygydd AHGTAEF yr ymagwedd ymchwiliol a gymerwyd ym mhob achos a samplwyd, yn ogystal â'r modd y dogfennir penderfyniadau.

Mae'n dda gennyf fod AHGTAEF wedi nodi bod adran fetio Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin ag anghyfartaledd yn effeithiol ac yn lliniaru risg yn y broses benderfynu ar gyfer fetio. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol mewn perthynas â safon y penderfyniadau a wneir ynglŷn â fetio a'r dogfennau rhesymeg cysylltiedig, a oedd yn cyfeirio at Arferion Proffesiynol Awdurdodedig Fetio, y Cod Ymarfer, y Cod Moeseg, y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a'r Model Penderfyniadau Cenedlaethol. Clywais fod dau heddlu arall wedi cysylltu â Heddlu Dyfed-Powys i ddysgu o'u hymagwedd.

Mewn perthynas â golchi data hanesyddol, mae'r holl wiriadau perthnasol wedi'u cynnal ar gyfer holl aelodau staff Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys swyddogion heddlu, staff yr heddlu a'r holl aelodau staff o fewn fy swyddfa i. Mae'r Heddlu wrthi'n cwblhau'r adroddiad ac yn disgwyl cyfarwyddyd ar gyfer cyflwyno'r datganiadau.

Yr wyf yn ddiolchgar i Andy Cook am ei adroddiad blynyddol. Mae fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch AHGTAEF er mwyn gwella'r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr Dyfed a Phowys.